




The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Apeliadau Cantiâd Sylweddau Peryglus



Atodiad 16

Apeliadau Caniatâd Sylweddau Peryglus

1. Mae'r broses caniatâd sylweddau peryglus yn sicrhau bod camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i atal damweiniau mawr a chyfyngu eu canlyniadau i bobl a'r amgylchedd. Mae'r broses ganiatâd yn rheoleiddio storio a defnyddio sylweddau peryglus ac yn galluogi ymdrin ag achosion o dorri rheolaeth, a allai arwain at risgiau difrifol, yn gyflym ac yn effeithiol. Mae caniatâd sylweddau peryglus yn sicrhau bod y perygl gweddilliol hwn i bobl yn y cyffiniau neu i'r amgylchedd yn cael ei ystyried cyn y caniateir i sylweddau peryglus fod yn bresennol mewn maint a reolir.

2. Rhoddir Caniatâd Sylweddau Peryglus gan yr Awdurdod Sylweddau Peryglus, h.y. yr Awdurdod Lleol perthnasol. Darperir ar gyfer Caniatâd Sylweddau Peryglus yn Neddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 "Deddf 1990".

3. A oes gennyf hawl i apelio?

3.1 Gallwch chi, neu asiant sy'n gweithredu ar eich rhan, apelio os chi oedd y sawl a wnaeth y cais am ganiatâd Sylweddau Peryglus.

4. Rhesymau dros yr apêl

4.1 Ceir cyflwyno apêl, o dan adran 21 Deddf 1990, yn erbyn penderfyniad Awdurdod Sylweddau Peryglus ar unrhyw un o'r seiliau canlynol:

- lle mae'r Awdurdod Sylweddau Peryglus yn gwrthod rhoi caniatâd neu'n rhoi caniatâd yn ddarostyngedig i amodau;
- lle mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am ddileu neu amrywio amod (neu amodau) a osodwyd ar Ganiatâd Sylweddau Peryglus blaenorol a roddwyd ac mae'r Awdurdod Sylweddau Peryglus wedi gwrthod y cais neu osod amodau gwahanol;
- lle mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am unrhyw ganiatâd, cytundeb neu gymeradwyaeth sy'n ofynnol trwy amod sydd ynghlwm wrth Ganiatâd Sylweddau Peryglus a roddwyd yn flaenorol, ond mae'r Awdurdod Sylweddau Peryglus wedi gwrthod rhoi'r caniatâd hwnnw/y cytundeb hwnnw/y gymeradwyaeth honno;
- lle mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais i'r Awdurdod Sylweddau Peryglus o dan Adran 17 y Ddeddf am barhad Caniatâd Sylweddau Peryglus yn dilyn newid perchenogaeth rhannol y tir, ac mae'r Awdurdod Sylweddau Peryglus wedi gwrthod y cais; neu
- lle mae'r Awdurdod Sylweddau Peryglus wedi methu â chyhoeddi penderfyniad o fewn y cyfnod a ganiateir (h.y. 8 wythnos o ddyddiad derbyn y cais, neu unrhyw gyfnod estynedig y cytunwyd arno'n ysgrifenedig rhwng yr ymgeisydd a'r Awdurdod Sylweddau Peryglus).

5. Sut gallaf apelio?

5.1 Dylech gyflwyno'ch apêl gan ddefnyddio'r ffurflen apêl Caniatâd Sylweddau Peryglus sydd ar gael gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru. Mae'r ffurflen apêl ar gael ar-lein; defnyddiwch y ddolen isod. Cysylltwch â'n swyddfa os oes arnoch angen copi caled. Cyn llenwi'r ffurflen apêl, darllenwch ein cyfarwyddyd ar Atodiad 01 " [Sut i gwblhau a chyflwyno eich apêl](#)".

<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/rights-of-way-and-wider-access/countryside-area/environmental-appeals/hazardous-substances-appeal/?skip=1&lang=cy>

6. Gweithdrefn

6.1 Mae Gweinidogion Cymru wedi dirprwyo'r swyddogaethau apêl i Arolygiaeth Gynllunio Cymru. Mae Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Cymru) 2015, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau Atgyfeiriedig a Gweithdrefn Apelau) (Cymru) 2017, yn benodol Rhan 4 (Cynrychiolaethau Ysgrifenedig) Rheoliad 22, yn amlinellu'r gweithdrefnau i'w dilyn. Mae rhagor o wybodaeth am y gweithdrefnau ar gael yn [Atodiad 02 – Gweithdrefnau](#).